Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD
## 25 Medi 2026

**TEITL:** Cynllun Deisebau Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

**AWDUR:** Helen Edwards, Dirprwy Swyddog Monitro

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw sefydlu Cynllun Deisebau ar gyfer y CBC.

**2. PENDERFYNIAD A GEISIR**

Bod y Cyd Bwyllgor Corfforedig yn cymeradwyo'r Cynllun Deisebau yn Atodiad 1.

**3. RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r CBC lunio a chyhoeddi cynllun sy'n nodi sut y mae'n bwriadu ymdrin â deisebau ac ymateb iddynt.
Mae'r cynllun drafft yn Atodiad 1 yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth, a gofynnir i'r CBC ei gymeradwyo. Unwaith y caiff ei gymeradwyo, bydd yn dod i rym ar unwaith ac yn cael ei gyhoeddi ar wefan y CBC.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

Mae'r cynllun arfaethedig yn nodi sut y gellir cyflwyno deiseb, sut ac erbyn pryd y bydd y CBC yn cydnabod ei fod wedi'i derbyn, y camau y gall eu cymryd mewn ymateb i ddeiseb, a'r amgylchiadau lle gall y CBC benderfynu peidio â chymryd camau pellach.
Mae'n ofyniad deddfwriaethol bod y CBC yn llunio ac yn cyhoeddi cynllun ar gyfer deisebau.

**5. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**

Nid oes goblygiadau sylweddol o ran adnoddau i greu a chyhoeddi cynllun deisebau. Os cyflwynir deiseb ddilys, byddai angen adnoddau gweinyddol i ymateb iddi yn unol â'r cynllun, ond ni ddisgwylir i hyn fod yn faich mawr. Os bydd y CBC yn penderfynu cymryd y camau y mae deiseb yn eu gofyn, gallai hyn arwain at oblygiadau o ran adnoddau, ond byddai hyn yn cael ei ystyried fesul achos wrth bennu'r ymateb priodol i'r ddeiseb.

**6. YMGYNGHORIAD**

Nid oes unrhyw ymgynghoriad wedi'i gynnal, gan fod gweithredu cynllun yn ofyniad statudol.

**7. ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG**

**7.1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Wrth lunio'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r ddyletswydd llesiant sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf').

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gyflawni datblygu cynaliadwy, sy'n golygu'r broses o wella llesiant cymdeithasol,

economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau gyda'r nod o gyflawni'r saith nod llesiant, sef:
Cymru lewyrchus
Cymru gydnerth
Cymru iachach
Cymru sy’n fwy cyfartal
Cymru o gymunedau cydlynus
Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Bydd gweithredu cynllun deisebau yn sicrhau bod unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau yn gallu cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, drwy godi materion o bryder cyhoeddus gyda'r CBC a galluogi i Aelodau ystyried yr angen am newid. Cydnabyddir y gall deisebau gael canlyniadau cadarnhaol sy'n arwain at newid neu sy'n llywio trafodaeth.

**7.2. Deddf Cydraddoldeb 2010**

Nid oes unrhyw oblygiadau penodol o ran cydraddoldeb yn deillio o'r adroddiad hwn.

**7.3. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Yn unol â Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 1) 2015, rhoddwyd ystyriaeth i’r effaith y gallai’r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo’r Gymraeg, i weld a yw’r cynigion yn ymdrin â’r Gymraeg yn fwy neu’n llai ffafriol na’r Saesneg, ac i ystyried cyfleoedd i gynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol, y cynigion ar y Gymraeg.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol a fyddai’n atal ceisio cymeradwyaeth i weithredu argymhellion yr adroddiad hwn.

Cyhoeddir y cynllun deisebau yn ddwyieithog, ac mae’n nodi’n glir y gellir cyflwyno deisebau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

**7.4. Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau**

Nid oes unrhyw faterion bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau penodol yn codi o’r adroddiad hwn.

## 8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

Mae'n ofynnol i'r CBC lunio a chyhoeddi cynllun deisebau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r cynllun arfaethedig yn Atodiad 1 yn cyd-fynd â gofynion y ddeddfwriaeth honno ac yn eu bodloni.

## 9. GOBLYGIADAU ARIANNOL

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol penodol yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 10. ATODIADAU

**Atodiad 1:** Cynllun Deisebau Drafft

**11. DOGFENNAU CEFNDIROL**

Dim

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro:**

Mae Adran 42 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, fel y'i cymhwysir i gyd-bwyllgorau corfforaethol gan reoliad 31 o Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021, yn ei gwneud yn ofynnol i'r CBC wneud a chyhoeddi cynllun deisebu a chadw'r cynllun hwnnw dan adolygiad.

Mae'r cynllun arfaethedig yn mynd i'r afael â'r gofynion statudol sy'n llywodraethu cyflwyno a chydnabod deisebau, y camau y gellir eu cymryd mewn ymateb, yr amgylchiadau lle na ellir cymryd unrhyw gamau pellach, a chyfathrebu a chyhoeddi ymatebion. Dewisiadau polisi o fewn disgresiwn y CBC yw'r trothwyon llofnodion a dyraniad y gwahanol lwybrau ymateb.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

Nid oes gennyf sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.